## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CROESFAN REILFFORDD LLANIDLOES ROAD, GER CAERSŴS, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, wrth groesfan reilffordd Llanidloes Road, ger Caersŵs, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r fynedfa i Neuadd Llandinam hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A489, i'r dwyrain o Gaersŵs, Powys.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A470 tua'r de i Raeadr Gwy, yr A44 tua'r dwyrain i'r Groes, yr A483 tua'r gogledd i'r Drenewydd a'r A489 tua'r gorllewin i ailymuno â'r A470 tua'r gogledd ger Caersŵs: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 8 Mai 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 23:30 o'r gloch ar 8 Mai tan 05:00 o'r gloch ar 11 Mai 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (LLANIDLOES ROAD LEVEL CROSSING, NR. CAERSŴS, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Llanidloes Road level crossing near Caersŵs, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the trunk road that extends from its junction with the entrance to Llandinam Hall to its junction with the A489 trunk road, east of Caersŵs, Powys.

The alternative route for northbound traffic is via the southbound A470 to Rhayader, eastbound A44 to Crossgates, northbound A483 to Newtown and westbound A489 to rejoin the northbound A470 near Caersŵs: vice versa for southbound traffic.

The Order comes into force on 8 May 2026. The temporary prohibition is expected to operate from 23:30 hours on 8 May until 05:00 hours on 11 May 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government